*Prifysgol y Plant Ar-lein:*

## Cynhyrchu stampiau: Amlddefnydd yn erbyn Defnydd Untro.

Dyma ganllaw i gynhyrchu stampiau ar gyfer gweithgareddau yn yr ysgol. Pan fydd plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd, bydd yn casglu stamp gweithgaredd sy'n unigryw i'r gweithgaredd y mae wedi cymryd rhan ynddo. Mae dau fath gwahanol o stamp y gallwch eu cynhyrchu, sef *Amlddefnydd* a *Defnydd Untro.* Bydd y ddogfen hon yn trafod y naill a'r llall yn ei dro.

**Yr hyn y bydd ei angen arnoch**

- Eich manylion mewngofnodi *Prifysgol y Plant Ar-lein*
- Mynediad i wybodaeth am y gweithgaredd rydych chi'n cynhyrchu'r stamp ar ei gyfer: Pryd mae'n digwydd? Am ba hyd y mae'r gweithgaredd yn para (sawl awr)?

**Cam 1**

- Ewch i www.childrensuniversity.co.uk a chwiliwch am y gair *Login* ar y dde uchaf. Dewiswch fewngofnodi fel aelod o staff a rhowch eich manylion. Eich cyfeiriad e-bost fydd eich enw defnyddiwr a byddwch wedi gosod eich cyfrinair wrth ddilyn yr awgrymiadau yn yr e-bost croeso a anfonwyd gan eich rheolwr Prifysgol y Plant. Os nad oes gennych fanylion mewngofnodi, gallwch gysylltu â'ch rheolwr a bydd yn anfon yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch i sefydlu eich cyfrif. Os ydych wedi anghofio eich cyfrinair, cliciwch *Forgotten Password* a dilynwch y cyfarwyddiadau.


**Cam 2**

- Unwaith y byddwch wedi ychwanegu eich gweithgaredd yn yr ysgol at *Prifysgol y Plant Ar-lein,* bydd angen i chi gynhyrchu cod stamp. Mae'r cod stamp yn unigryw i'r gweithgaredd ac mae'n cael ei lwytho â gwybodaeth am gategorïau dysgu a sgiliau. Wrth ychwanegu eich gweithgaredd, byddwch wedi nodi pa mor hir y mae'r gweithgaredd yn para (mewn oriau). Bydd hyn yn penderfynu pa nifer o oriau mae'r stamp werth

**Stamp Gweithgaredd Defnydd Untro**


Cod stamp yw hwn y gall pob plentyn ei gyflwyno ar-lein unwaith yn unig, a bydd yn ychwanegu cyfanswm nifer yr oriau a bennir at gofnod y plentyn. Unwaith y bydd y cod wedi'i roi i'w *ddangosfwrdd Prifysgol y Plant Ar-lein,* ni fydd modd iddo wneud hyn eto. Dyma'r hyn y dylech ei ddewis pan fydd eich gweithgaredd yn weithgaredd untro yn unig.

Os dewiswch yr opsiwn hwn, cliciwch *Generate Stamp* a byddwch yn cael cod. Bydd angen i chi roi'r cod hwn i'r gyrchfan ddysgu.




**Stamp Gweithgaredd Aml-ddefnydd**

Os byddwch yn dewis Stamp Gweithgaredd Aml-ddefnydd, bydd mwy o opsiynau ar gael i chi:



**Opsiwn 1**

**Mae pob defnydd yn ychwanegu'r oriau llawn (opsiwn a awgrymir)**

- Mae'r opsiwn hwn yn caniatáu i'r plentyn ychwanegu stamp sawl gwaith ond mae'n eich galluogi i roi terfyn ar sawl gwaith y gellir defnyddio'r cod stamp. Er enghraifft, os oes gennych weithgaredd lle mae pob sesiwn yn para 1 awr, efallai y byddwch am ganiatáu i blentyn gyflwyno'r cod hwn sawl gwaith ond am nifer cyfyngedig o droeon. Gall gymnasteg, er enghraifft, fod yn rhywle y mae plentyn yn mynd am ddosbarth 1 awr unwaith yr wythnos am 10 wythnos. Yn yr achos hwn byddech yn dewis *Each use adds the full hours* a chyfyngu nifer y gweithiau y gellir defnyddio'r stamp i 10. Unwaith y byddwch wedi cynhyrchu eich stamp, bydd angen i chi ei rannu â'r aelod o staff sy'n cynnal y gweithgaredd. Gellir cael gafael ar y stamp hwn ar unrhyw adeg trwy eich dangosfwrdd.

**Opsiwn 2**

**Mae pob defnydd yn ychwanegu cyfran o'r oriau**

Mae hyn yn eich galluogi i rannu nifer yr oriau y gellir eu hychwanegu at ddangosfwrdd plentyn.

- Gydag enghraifft o gwrs tenis 10 awr, gallech ddewis *Each use adds a portion of the hours* ac ateb y gellir defnyddio'r stamp hwn 5 gwaith. Yna bydd yn rhannu cyfanswm nifer yr oriau yn awtomatig yn ôl nifer y gweithiau y gellir ei ddefnyddio. Bydd hyn wedyn yn rhoi cod i chi a fydd yn ychwanegu 2 awr at gofnod plentyn a gellir ei ychwanegu 5 gwaith.

**Problemau Cyffredin**

- Gall cynhyrchu stampiau gwahanol gymryd ychydig o amser i'w ddeall. Os ydych yn ansicr, efallai y byddai'n werth creu gweithgaredd prawf i'w ddilysu a chynhyrchu stampiau ar ei gyfer. Gallwch wneud hyn ar eich dangosfwrdd trwy glicio *Add* o dan y tab *Activities.* Gallwch archifo hwn unwaith y byddwch yn teimlo'n gyfforddus gyda'r broses.

**Mae'n ddrwg gennyf, dydw i ddim yn deall o hyd!**

- Cysylltwch â'n Swyddog Cynhwysiant Digidol, Cordelia Howard cordelia.howard@childrensuniversity.co.uk